

Cyngor Cymuned Betws-y-Coed

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar yr 8fed Chwefror 2016

Presennol - Gareth Wynne Cadeirydd, Meirion Owen, Marion Bettenev, Gwawr Jones, Gareth Parry, Terry Bullock, Cyng Elisabeth Roberts Cyngor BS Conwy. Caerwyn Roberts, Clerc. Ymddiheuriadau Siân Godbert, Karen Pugh, Jim Boughton, Janet Charlton. Datgan diddordeb Ni chafwyd datganiad o ddiddordeb.

Cofnodion, Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar yr 11eg Ionawr 2016.

(1)Yr Heddlu

Nid oedd yr heddlu'n bresennol.

[1.2] Diffibriliwr

Dywedodd y clerc ei fod yn dal i ddisgwyl i'r trydanwr gysylltu'r diffibriliwr i'r cyflenwad trydan. Y clerc i wneud trefniadau eraill ar gyfer cwblhau'r gwaith.

[1.3] Taflen Wybodaeth Rhaeadr Ewynnol

Cytunodd y clerc i gyfieithu'r ddogfen I Gymraeg.

[1.4] Goleuadau Ychwanegol/ Neuadd Goffa

Nodwyd bod Ms Haf Jones [Cyngor BS Conwy] yn ceisio grant ar ran y grŵp pantomime.

[1.5] Cae Chwarae Pentre' Du/Byrddau Picnic

Nodwyd bod y mater yn parhau.

[1.6] Creu Swigod/Cae Llan

Y clerc i gysylltu gyda Mr William Hall ar Parc Cenedlaethol i ymholi a oedd ateb ynglŷn â chreu swigod ar Cae Llan, a hefyd y pryder bod y llwybr yn llithrig.

[1.7] Goleuadau Nadolig

Y clerc i drefnu prynu 3 golau ychwanegol.

[1.8] Casglu Arian/Rhaeadr Ewynnol

Dywedodd y clerc ei fod yn trefnu cwrdd â chynrychiolydd o gwmni Loomis i drafod y trefniadau.

[1.9] Olwyn Golygfa

Gan nodi sylwadau'r Parc Cenedlaethol bod rhaid cael caniatâd cynllunio ymhen 28 diwrnod ac nad oedd gwrthwynebiad gan Gyngor Sir Conwy ar Ystâd Gwydr, y clerc i drefnu cyfarfod yng Nghae Llan gyda chynrychiolydd y cwmni hamdden

[2] Llifogydd Pentre' Du

Nodwyd bod Cyfoeth Naturiol Cymru yn trefnu adolygiad llifogydd, a bydd yr adroddiad yn cael ei anfon ymlaen i'r Cyngor Cymuned

[2.1] Llwybrau Cyhoeddus [19/31] Pont y Mwynwyr

Nodwyd bod y pryder ynglŷn â chyflwr y llwybrau wedi ei anfon ymlaen I Peter Rutherford APCE.

Brif Agenda

[2.2] Tai Fforddiadwy

Mynychwyd y cyfarfod gan Mr Arfon Hughes Hwylusydd Tai Gwynedd a'i gyd weithiwr Mr Dylan Owen, a chafwyd amlinelliad ganddynt o'r sefyllfa ar gyfer tai fforddiadwy ym Mhentre' Du. Cadarnhaodd Mr Hughes nad oedd y ffordd mynediad bellach yn anhawster, ac awgrymodd mai yn y lle cyntaf, sesiwn galw i mewn sydd ei angen i benderfynu'r galwad.

[2.3] Materion Cynllunio

[a] Adeiladu byngalo fforddiadwy, tir ger Fferm yr Hendre, Pentre' Du.

[b] Caniatáu Diwygiad Ansylweddol i leihau maint estyniad. Rhoslan, Ffordd Gethin, Pentre' Du. Penderfynwyd nad oedd gwrthwynebiad i'r ddau gais uchod.

[2.4] Materion Ariannol

(a) Cymeradwywyd y taliadau ar derbyniadau (a ddsbarthwyd) a wnaed ym mis Ionawr 2016 2015.

(b) Y Rhaeadr Ewynnol -Nodwyd y ffigyrau [a ddsbarthwyd] ar gyfer cyfnodau cymharol i ddiwedd Ionawr 2016.

[2.5] Asesiad Risg

Cymeradwywyd y daflen wybodaeth, y cler c i yrru'n mlaen gyda materion sydd angen sylw.

[2.6] Cytundeb Trwydded Cae Llan

Cyfeiriodd y cler c at lythyr oddiwrth Cyngor BS Conwy yn datgan ychwanegiad yng nghost y drwydded I £350.00 y flwyddyn o ddechrau Chwefror 2016. Gan nodi'r derbyniad ariannol siomedig am logi'r cae, penderfynwyd gwahodd Mr Gareth Peters Cyngor BS Conwy, i gyfarfod nesaf y Cyngor.

[2.7] Banc HSBC Betws-y-Coed

Dywedodd y cler c bod cyfarfod wedi ei drefnu gyda Guto Bebb AS , Janeth Finch Saunders AC a Mr Martyn Lyons HSBC yn y Neuadd Goffa ar y 19eg Chwefror 2016 am 7.30 y.h. i drafod y bwriad i gau'r banc ar yr 8fed Ebrill 2016.

[2.8] Ffedereiddio Ysgolion

Nodwyd y llythyr gan Mr Jan Chapman Cadeirydd y Corff Llywodraethwyr yn amlinellu cynnig i ffedereiddio ysgolion Dolwyddelan, Capel Garmon a Betws-y-Coed. Penderfynwyd nad oedd gwrthwynebiad i'r cynnig.

[2.9] Gorlifo Carffosiaeth

Mynegwyd pryder bod gorlifo o'r gwaith carffosiaeth i'r cae yn ymyl y rheilffordd. Y cler c i gysylltu gyda'r Bwrdd Dwr ynglŷn â'r mater.

[3] Gulis wedi tagu/Pentre' Du.

Dywedodd y Cyng Elisabete Roberts bod y Cyngor Sir yn ymwybodol bod y gulis gyferbyn a 4/5 Bro Gethin wedi tagu, a bod y mater yn cael sylw.